

Credu mewn credyd?

Deall profiadau o gredyd cost uchel yng Nghymru

Crynodeb

Mae mynediad i gredyd fforddiadwy yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei gymryd yn gania-taol. Mae'n sylfaenol i'n bywyd o ddydd i ddydd, gan ein galluogi i brynu popeth o geir a gwyliau i sofffa newydd neu set deledu, pethau a fyddai fel arall allan o'n cyrraedd. Mae credyd yn helpu pobl i gyfrannu a chyfranogi yn eu cymuned leol a'r gymdeithas ehang-gach. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'n heconomi.

Eto fe amcangyfrifir fod tua 12 miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig sydd heb fynediad i gredyd fforddiadwy, sy'n eu cau allan yn ariannol a'u gorfodi i dalu graddfeydd llog uchel i ddisbyddu cyllidebau oedd eisoes dan wasgfa. Ffurf fwyaf (ddrwg)enwog credyd uchel yw talu benthyciadau diwrnod cyflog - ond fel y dengys yr ymchwil hwn mae ffurfiau eraill o gredyd uchel - credyd cartref (sy'n aml yn cael ei alw'n fenthyciadau carreg y drws) a rhentu-i-berchnogi - yn cael eu defnyddio'n llawer mwy cyffredin yng Nghymru. Aeth yr ymchwil hwn ati i geisio deall profiadau'r bobl sy'n defnyddio'r cynhyrchion hyn, trwy ba broses maen nhw'n gwneud eu penderfyniadau, a'r effaith mae hyn yn ei gael.

Mae angen gweithredu ar sawl ffyrnt, gan gynnwys addysg, tai, iechyd ac, nid yn lleiaf, y farchnad ei hun. Rhaid hefyd cael mwy o gydweithredu ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, a'r gymdeithas sifil, gan gynnwys y cymunedau eu hunain.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

• Mae 6 y cant o boblogaeth Cymru wedi defnyddio un neu fwy o siopau rhentu-i-berchnogi, credyd cartref a benthyciadau diwrnod cyflog yn y flwyddyn ddiwethaf.

• Mae cwsmeriaid yn dod o bob cylch o fywyd ond yn debycaf o fod yn deuluoedd ifanc. Maen

nhw'r un mor debygol o fod mewn cyflogaeth ag i beidio â bod yn gwsmeriaid ond yn fwy tebygol o fod ar incwm isel.

• Mae'r rhesymau dros fod yn defnyddio credyd cost uchel yn amrywio o dalu am y Nadolig neu brynu eitemau newydd i'r tŷ i ddim mwy na thalu biliau a chadw dau ben llinyn ynghyd. I'r rhan fwyaf, maen nhw'n cynrychioli pethau y mae'n rhaid eu prynu. Mae yna gyfleoedd i helpu pobl i gynllunio'n well ar gyfer rhai o ddigwyddiadau bywyd (e.e., plentyn newydd neu symud tŷ) neu ddarparu cefnogaeth ragweithiol gynharach wrth wynebu rhai eraill (e.e. colli swydd neu brofedigaeth). Treialon annisgwyl felly sy'n symbylu tua un o bob pedwar.

• Mae'r rhan fwyaf o bobl yn troi'n syth at gredyd cost uchel heb ystyried gwahanol fathau o gredyd neu gymharu cynigion gan wahanol fenthycwyr.

• Mae cwsmeriaid credyd cost uchel yn nodweddiadol yn ymwybodol tu hwnt o'u hincwm a'u gwario, ac yn aml yn defnyddio 'pot jam' a datrysiadau rheoli arian anffurfiol eraill. Fodd bynnag, nid yw diffyg medrusrwydd ariannol a hyder wrth reoli arian ond yn un o nifer o ffactorau sydd (yn aml yn isymwybodol) yn effeithio ar benderfyniadau. Fel gyda phoblogaeth Cymru yn ehangach, mae llawer o le i wella medrusrwydd ariannol.

• Mae llawer yn gweld dewisiadau credyd cost uchel yn rhywbeth 'ar gyfer pobl fel fi' ac yn un o nifer cyfyngedig iawn o ddewisiadau ariannol. Mae hyn, yn rhannol, yn ganlyniad i fedrusrwydd ariannol gwael a nodweddion deniadol y cynhyrchion sydd ar gael ar hyn o bryd a'r ffaith eu bod yn cael eu defnyddio a'u derbyn yn gyffredinol.

• Mae mwyafrif cwsmeriaid credyd cost uchel yn byw mewn cymunedau ble mae'r mathau hyn o fenthycia yn arferol. Mae 71% yn meddwl fod benthycia gan fenthycwyr carreg y drws yn gyffredin yn eu cymuned. Mae teulu a ffrindiau'n llunio gwneud penderfyniadau ac ymgynghoriadau trwy roi cyngor

a help ymarferol gyda rheoli arian. Ddylai pŵer y rhwydweithiau lleol hyn a dylanwad cymheiriaid ddim cael ei danbriso.

• **Mae darparwyr credyd cartref mewn sefyllfa arbennig o gref i annog ail fenthyca.** Bydd rhai cwsmeriaid mewn cylch bron yn ddi-dor o fenthyciadau carreg y drws am flynyddoedd, gydag asiantau yn targedu stadau a chymunedau incwm isel, yn enwedig yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Byddai galluogi pobl i ddargyfeirio hyd yn oed gyfran o'r hyn y maen nhw'n ei wario ar ad-dalu benthyciadau drud i gynilion yn un ffordd a allai gael effaith sylweddol ar eu gwytnwch ariannol a'u gwneud yn llai dibynnol ar gredyd yn gyffredinol.

• **Mae syniadau pobl am fenthyciadau diwrnod cyflog yn dal i adlewyrchu'r farchnad cyn i gyfyngiadau ddod i rym,** a hynny'n cael ei gadarnhau gan y ffordd y mae'n cael ei bortreadu yn y wasg a chan brofiadau'r gorffennol. Mae'r cap ar gredyd cost uchel tymor byr wedi newid y cynnyrch hwn yn ddramatig, a'i gwneud hi'n llai tebygol y bydd cwsmer yn mynd i drafferthion ariannol difrifol; eto hwn yw'r tebycaf o ddigon o gael ei bardduo o blith y tri math o gredyd y buom ni'n ymchwilio iddo.

• **Yn wahanol i hynny, mae rhentu-i-berchnogi a chredyd cartref i raddau helaeth wedi llwyddo i osgoi cyhoeddusrwydd negyddol** ynghylch credyd cost uchel sy'n golygu eu bod yn dal i gael eu gweld yn ddewisiadau cymharol dderbyniol, er eu bod mewn gwirionedd yn ddulliau hynod ddrud.

• **Nid rheoleiddio pob ffurf o gredyd cost uchel i'w gyrru allan o fodolaeth yw'r ateb.** Mae pob un o'r tri dull yn chwarae rhan bwysig yn y farchnad ac yn llwyddo i ymateb i alw'r cwsmeriaid. Os nad oes dewisiadau deniadol a hyfyw eraill ar gael mae perygl i gwsmeriaid gael eu gadael heb unrhyw gredyd o gwbl ac y byddai rhai'n troi at fenthycwyr anghyfreithlon.

• **Mae angen clir am dwf yn y farchnad gredyd fforddiadwy** – trwy ehangu gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi gan ddarparwyr presennol, fel yr undebau credyd a Moneyline, a thrwy arloesi pellach.

ARGYMHELLION I

Yn y pen draw does yna ddim dull hud a lledrith i chwyldroi credyd fforddiadwy. Mae'n hargymhellion yn canolbwyntio ar bum maes gweithredu allweddol a allai, o ddod â nhw at ei gilydd, greu newid go iawn er mwyn gwella mynediad i gredyd fforddiadwy a rhoi'r sgiliau a'r hyder i bobl i wneud dewisiadau ariannol cadarnhaol neu chwilio am gyngor pan fo angen:

Defnydd strategol o bolisi a (hunan-) reoleiddio:

- Ymrwymiad i gyflawni ar Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru;
- Agwedd 'lles ariannol ym mhob polisi';

- Rheoleiddio hyrwyddo ail fenthyciadau;
- Datblygu proses sy'n galluogi pobl i 'hunan wahardd' rhag mathau penodol o gredyd neu fenthycwyr;

Gwella gwasanaethau addysg a chyngori:

- Gweithredu Strategaeth Medrusrwydd Ariannol Cymru;
- Cefnogi creu rhaglenni'n cael eu harwain gan gymheiriaid;
- Mwy o gydweithredu ar draws sectorau i adnabod cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar;
- Cynlluniau peilot ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned;

Gwella canlyniadau trwy weithio gyda darparwyr tai:

- Datblygu canllawiau cyn-tenantiaeth;
- Gwasanaethau cyn-tenantiaeth newydd;
- Gwella pecynnau a chymorth dodrefnu tai;

Galluogi arloesi:

- Mwy o gefnogaeth reoliadol ar gyfer arloesi;
- Gwella'r cyllid ar gyfer arloesi trwy ariannu cymdeithasol;
- Cefnogaeth traws-sector ar gyfer arbrofi;

Y farchnad:

Lleded Cymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt, mae llawer o waith pwysig a chreadigol yn cael ei wneud eisoes i wella'r cynhyrchion a'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd a datblygu rhai newydd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys benthycwyr fforddiadwy fel Moneyline (e.e. gyda'u cynllun cynilo "Round it up" ar fenthyciadau, undebau credyd a dulliau 'diwrnod cyflog' tymor byr eraill.